

## **GRANTIAU ADNEWYDDU CARTREFI GWEIGION** **AR GYFER PRYNWYR TRO CYNTAF**

### **CYFFREDINOL**

Mae'r grantiau sydd ar gael ar gyfer y cynllun uchod yn DDEWISOL ac efallai y bydd cymorth o hyd at £20,000 neu 100% o'r costau sy'n gymwys, p'un bynnag yw'r lleiaf, ar gael i brynwyr tro cyntaf gyda chysylltiad lleol i adnewyddu eiddo gwag a dod ag ef yn ôl i ddefnydd fel eu cartref. Dylai'r eiddo fod wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer grant rhaid i chi fod yn barod i:

- ◆ Darparu tystysgrif gan eich cwmni morgais yn cadarnhau eich bod yn brynwr tro cyntaf a'u bod wedi cynnig morgais i chi.
- ◆ Sicrhau bod yr eiddo i'w brynu wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis. (Gall y Swyddog Cartrefi Gweigion neu Adain Y Dreth Gyngor, Cyngor Sir Ynys Môn eich cynghori os mai dyma yw'r achos).
- ◆ Gwneud pob ymdrech i sicrhau y dylai'r eiddo, cyn belled ac y mae hynny'n bosibl, fodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar ôl iddo gael ei adnewyddu.
- ◆ Byw mewn eiddo fel perchen/deilydd am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad cymeradwyo'r grant.
- ◆ Cytuno i'r Cyngor gofrestru Pridiant Tir yn erbyn yr eiddo a fydd yn ei le am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad cymeradwyo'r grant. Bydd hyn yn golygu y gall y Cyngor adennill y grant os bydd raid gwerthu'r eiddo o fewn cyfnod o 5 mlynedd.

### **EICH ADNODDAU ARIANNOL**

Mater i'r Cyngor yw faint o grant y bydd yn ei roddi, os o gwbl.

Bydd y Cyngor yn archwilio'r eiddo ac yn penderfynu pa waith sy'n gymwys am gymorth cyn i chi gyflwyno'r cais.

Os bydd gwerth y gwaith cymwys yn £20,000 neu'n is, rhagwelir y bydd Grant Cartrefi Gweigion yn talu am y cyfan o'r gwaith adnewyddu. Os bydd yn costio mwy na £20,000 i wneud yr eiddo yn addas i fyw ynddo, bydd y Cyngor angen llythyr o gadarnhad gan eich Banc neu'r sawl sydd wedi rhoi benthyciad yn cadarnhau bod gennych ddigon o arian i dalu'r costau ychwanegol hyn.

Os na fydd modd i chi godi digon o flaendal i ddiogelu morgais i brynu'r eiddo, mae'n bosibl y bydd gan y Cyngor gynlluniau prynu cartref a all fod o gymorth i chi. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â [www.TaiTeg.org.uk](http://www.TaiTeg.org.uk) <<http://www.TaiTeg.org.uk>>. Gellir cael gwybodaeth pellach ynglŷn â hyn yn nhaflen Tai Teg, sydd wedi'i gynnwys o fewn y pecyn gwybodaeth hwn.

### **BETH I'W WNEUD NESAF**

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael eich ystyried ar gyfer grant, dylech gysylltu gyda'r Swyddog Cartrefi Gweigion yn y cyfeiriad isod gyda manylion am yr eiddo. Bydd y Swyddog Cartrefi Gweigion yn trefnu i'ch cyfarfod yn yr eiddo gwag lle mae hynny'n bosibl i drafod y cynllun mewn mwy o fanylder.

- ◆ **Swyddog Cartrefi Gweigion**  
**Cyngor Sir Ynys Môn**  
**Swyddfeydd y Cyngor**  
**Llangefni**  
**Ynys Môn**  
**LL77 7TW**  
**Rhif ffôn 01248 752283**  
**E-bost. emptyhomesofficer@ynysmon.gov.uk**